

Asesiad Opsiynau – Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid

Opsiwn 1	Dal i ddarparu yr un peth ond gwneud llai ohono (cau clybiau mewn cymunedau a llai o grantiau i'r trydydd sector)
Opsiwn 2	Dal i ddarparu yr un peth ond gwneud llai ohono a peidio rhoi grantiau i'r trydydd sector (cau clybiau ieuenctid mewn cymunedau).
Opsiwn 3	Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir, a chomisiynu gweithgareddau a phrosiectau penodol gan partneriaid allanol.
Opsiwn 4	Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir, a creu grant cymunedol i fudiadau'r trydydd setor i ddarparu gweithgareddau pobl ifanc.

Opsiwn 1	Cyfarch y newid mewn anghenion pobl ifanc? (barn, a tueddiadau demograffig)
	Rhannol
	Bydd y Gwasanaeth oherwydd y gyllideb yn darparu llai.
	Parhau i ddarparu (ond llai) o ofod diogel i bobl ifanc gyfarfod ynddo, mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc gymdeithasu yn y clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc ennill sgiliau yn y clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc drwy'r clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Gweithiwr leuenctid ar gael drwy glwb yn unig / tymor ysgol yn unig / a dim ond mewn rhai cymunedau.
	Dim hyblygrwydd i ymateb i faterion sy'n codi y tu allan i leoliadau'r clybiau.
	Gweithlu sesiynol heb hyblygrwydd i weithio y tu hwnt i'w oriau na'u clybiau.
	Cyfarch y newid yn y cyd-destun? (polisi, strategol, statudol)
	Nac ydy
Ni fydd yr opsiwn yma yn caniatáu i ni adeiladu cysylltiadau a partneriaethu gyda ysgolion na'r trydydd sector.	
Bydd y gwaith partneriaethol gydag asiantaethau cymorth ieuenctid eraill i gyd yn ddibynnol ar grantiau.	
Ni fydd gennym yr adnoddau ar gyfer cyflawni'r rôl Gweithiwr Allweddol i bobl ifanc ôl 16 oed.	
Cyfarch y Gyllideb? (Fforddiadwy a cynaliadwy)	
Rhannol	
<u>Fforddiadwy</u> - Ydy	
<u>Cynaliadwy</u> - Nac ydy	
Byddai unrhyw doriad pellach i'r gyllideb yn arwain at gwtogi'r nifer o glybiau ymhellach a llai eto o grant i'r trydydd sector. Byddai hyn yn gwneud y gwasanaeth yn aneffeithiol.	
Gallu i gynnal gweithlu? (recrwtio, hyfforddi a cynnal staffio).	
Nac ydy.	
Nid ydym yn gallu recrwtio digon o weithwyr 3 awr, 6 awr, 9 awr ar hyn o bryd i gynnal y model darparu hwn.	
Nid ydym yn gallu darparu hyfforddiant Gwaith leuenctid, na prynu hyfforddiant Gwaith leuenctid Cyfrwng Cymraeg er mwyn datblygu'r gweithlu.	
Crynodeb o'r prif effeithiau (asesiad effaith cydraddoldeb, effeithiau cymdeithasol, effeithiau'r 3ydd sector)	
Negyddol ar y cyfan	
<u>Cydraddoldeb</u>	
Efaith Negyddol ar y Grwp Oedran yn gyffredinol oherwydd llai o ddarparaeith ar gael.	

Effaith negyddol ar rhai grwpiau o bobl ifanc gan fod y cynnig mor gyffredinol ac yn rhoi yr un peth i bawb. Ni fydd lle ar gyfer gwneud gwaith gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n wynebu heriau penodol.

Cymdeithasol

Effaith Gofodol – rhai cymunedau yn gweld cwtogiad mewn darpariaeth. Rhai cymunedau yn parhau heb ddarpariaeth. Rhai cymunedau (10) yn derbyn darpariaeth.

Ni all y gwasanaeth ar y ffurf yma gyfrannu tuag at ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan bobl ifanc mewn pentrefi.

3ydd Sector.

Llai o grant i'r trydydd sector. Gall lleihad i'r grant fod ag effaith wahanol ar y mudiadau gwahanol yn ddibynnol ar eu hadnoddau / capasiti i ymdopi.

Mae mudiadau gwirfoddol eraill yn Ngwynedd yn darparu gweithgareddau a chyfleon cymdeithasol i bobl ifanc nad ydynt yn rhan o'r grant gan y Gwasanaeth Ieuenctid ar hyn o bryd.

Nid oes capasiti yn y model hwn i fod yn darparu cefnogaeth ariannol, na chefnogaeth arall i fudiadau'r 3ydd sector sy'n gweithio gyda pobl ifanc ar faterion megis hyfforddi'r gweithlu, diogelu, targedu grantiau ac ati.

Opsiwn 2	Cyfarch y newid mewn anghenion pobl ifanc? (barn, a tueddiadau demograffig)
	Rhannol
	Bydd y Gwasanaeth oherwydd y gyllideb yn darparu llai.
	Parhau i ddarparu gofod diogel i bobl ifanc gyfarfod ynddo, mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc gymdeithasu yn y clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc ennill sgiliau yn y clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Parhau i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc drwy'r clybiau mewn nifer llai o gymunedau.
	Gweithiwr leuenctid ar gael drwy glwb yn unig / tymor ysgol yn unig / a dim ond mewn rhai cymunedau.
	Dim hyblygrwydd i ymateb i faterion sy'n codi y tu allan i leoliadau'r clybiau.
	Gweithlu sesiynol heb hyblygrwydd i weithio y tu hwnt i'w horiau na'u clybiau.
Gall dileu'r grant i'r trydydd sector arwain at lai o gyfleon cymdeithasol i bobl ifanc mewn rhai cymunedau.	
Cyfarch y newid yn y cyd-destun? (polisi, strategol, statudol)	
Nac ydy	
Ni fydd yr opsiwn yma yn caniatáu i ni adeiladu cysylltiadau a partneriaethu gyda ysgolion.	
Bydd y gwaith partneriaethol gydag asiantaethau cymorth ieuenctid eraill i gyd yn ddibynnol ar grantiau.	
Ni fydd gennym yr adnoddau ar gyfer cyflawni'r rôl Gweithwir Allweddol i bobl ifanc ôl 16 oed.	
Cyfarch y Gyllideb? (Fforddiadwy a cynaliadwy)	
Rhannol	
<u>Fforddiadwy</u> - Yndi.	
<u>Cynaliadwy</u> - Nac ydy	
Byddai unrhyw doriad pellach i'r gyllideb yn arwain at gwtogi'r nifer o glybiau ymhellach. Byddai rhedeg gwasanaeth i ddarparu 14 Clwb leuenctid yn unig yn wasanaeth aneffeithiol o ran gwerth am arian.	
Gallu i gynnal gweithlu? (recriwtio, hyfforddi a cynnal staffio).	
Nac ydy.	
Nid ydym yn gallu recriwtio digon o weithwyr 3 awr, 6 awr, 9 awr ar hyn o bryd i gynnal y model darparu hwn.	
Nid ydym yn gallu darparu hyfforddiant Gwaith leuenctid, na prynu hyfforddiant Gwaith leuenctid Cyfrwng Cymraeg er mwyn datblygu'r gweithlu.	
Crynodeb o'r prif effeithiau (asesiad effaith cydraddoldeb, effeithiau cymdeithasol, effeithiau'r 3ydd sector)	
Negyddol ar y cyfan	

Cydraddoldeb

Efaith Negyddol ar y Grwp Oedran yn gyffredinol oherwydd llai o ddarparaeith ar gael.

Potensial effaith negyddol ar rhai grwpiau o bobl ifanc gan fod y cynnig mor gyffredinol ac yn rhoi yr un peth i bawb. Ni fydd lle ar gyfer gwneud gwaith gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n wynebu heriau penodol.

Cymdeithasol.

Effaith Gofodol – rhai cymunedau yn gweld cwtogiad mewn darpariaeth. Rhai cymunedau yn parhau heb ddarpariaeth. Rhai cymunedau (14) yn derbyn darpariaeth.

Ni all y gwasanaeth ar y ffurf yma gyfrannu tuag at ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan bobl ifanc mewn pentrefi.

3ydd Sector.

Dim grant i'r trydydd sector.

Gall peidio rhoi grant fod ag effaith wahanol ar y mudiadau gwahanol yn ddibynnol ar eu hadnoddau / capasiti i ymdopi, capasiti i gynnyddu incwm a lleihau costau a targedu incwm o ffrydiau eraill.

Gall dileu'r grant arwain at lai o gyfleon cymdeithasol gan 2 mudiad i rai pobl ifanc mewn rhai cymunedau h.y gall olygu y bydd llai o glybiau Ffermwyr Ifanc, aelwydydd yr Urdd yn y sir

Mae mudiadau gwirfoddol eraill yn Ngwynedd yn darparu gweithgareddau a chyfleon cymdeithasol i bobl ifanc nad ydynt yn derbyn rhan o'r grant gan y Gwasanaeth Ieuentid ar hyn o bryd.

Nid oes capasiti yn y model hwn i fod yn darparu cefnogaeth ariannol, na chefnogaeth arall i fudiadau eraill y 3ydd sector sy'n gweithio gyda pobl ifanc ar faterion megis hyfforddi'r gweithlu, diogelu, targedu grantiau ac ati.

Opsiwn 3	Cyfarch y newid mewn anghenion pobl ifanc? (barn, a tueddiadau demograffig)
	Rhannol
	Bydd y Gwasanaeth oherwydd y gyllideb yn darparu llai.
	Ni fydd y gwasanaeth yn darparu gofod diogel i bobl ifanc ymgynnull ynddo.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc gymdeithasu drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc ennill sgiliau drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Parhau i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Gweithiwr Ieuenctid ar gael drwy'r ysgol ac mewn cymunedau.
	Gweithwyr Ieuenctid ar gael gydol y flwyddyn.
	Gweithlu hyblygu i allu darparu gweithgaredd neu brosiect mewn lleoliad yn nol yr angen, ac ar bwnc yn nol yr angen.
Gall y model hwn deilwra'i gynnig ar gyfer y grwpiau oedran gwahanol, sef 11-19 oed a 16-25 oed	
Cyfarch y newid yn y cyd-destun? (polisi, strategol, statudol)	
Ydy	
Bydd yr opsiwn yma yn caniatáu i ni adeiladu cysylltiadau a partneriaethu gyda ysgolion.	
Bydd y model yn caniatáu i ni gyfrannu tuag at y gwaith partneriaethol gydag asiantaethau cymorth ieuenctid eraill.	
Bydd y model yn caniatáu i ni gydweithio, cydgynllunio gyda'n partneriaid cymorth ieuenctid i uchafu adnoddau, osgoi dyblygu a cyfarch anghenion ar y cyd.	
Bydd y model yn caniatáu i ni gyflawni'r rôl Gweithwir Allweddol i bobl ifanc ôl 16 oed.	
Bydd y model yn caniatáu i ni barhau i gynnal darpariaeth sy'n agored i unrhyw berson ifanc, drwy brosiectau a gweithgareddau i rai 11-19 oed.	
Bydd y model yn cyfarch y gofyn i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid.	
Cyfarch y Gyllideb? (Fforddiadwy a cynaliadwy)	
Ydy	
<u>Fforddiadwy</u> - Ydy.	
<u>Cynaliadwy</u> - Ydy.	
Mae capasiti oddi fewn i'r opsiwn hwn ar gyfer cydweithio gyda siroedd eraill all arwain at effeithiolrwydd pellach.	
Mae gallu oddi fewn i'r opsiwn hwn i uchafu'r grantiau presennol o Lywodraeth Cymru a ESF am y 3 blynedd nesaf.	
Mae capasiti oddi fewn i'r opsiwn hwn i dargedu a datblygu ffrydiau incwm pellach.	

Gallu i gynnal gweithlu?
(recrwtio, hyfforddi a cynnal staffio).

Ydy.

Byddwn yn llai dibynnol ar weithlu sesiynol, a gallu cynnig mwy o swyddi llawn amser.

Bydd y model yn caniatáu i ni hyfforddi a datblygu ein gweithlu ein hunain.

Bydd y model yn caniatáu i ni fod a gweithwyr gyda'r sgiliau cywir a'r cymwyseddau i gyflawni'r gwaith ieuencid.

Crynodeb o'r prif effeithiau
(asesiad effaith cydraddoldeb, effeithiau cymdeithasol, effeithiau'r 3ydd sector)

Positif ar y cyfan gyda rhai agweddau negyddol.

Cydraddoldeb

Effaith Negyddol ar y Grwp Oedran yn gyffredinol oherwydd llai o ddarparaeith ar gael.

Effaith Bositif i rai 16-25 oed gan fod y Gwasanaeth yn teilwra yr hyn sy'n cael ei gynnig i'r crwi oedran yma.

Potensial Effaith Bositif ar rai grwpiau o bobl ifanc sydd a nodweddion gwarchoddedig gan y gall rhai o'r prosiectau / gweithgareddau fod yn delio gyda materion penodol megis rhywioldeb, trawsrywedd, dinasyddiaeth fyd-eang ac ati.

Effaith Bositif ar Bobl Ifanc gydag Anghenion ac Anabledd gan y bydd y model yn caniatáu presenoldeb a chyswllt Gweithiwr Ieuencid yn yr ysgolion arbennig.

Cymdeithasol.

Effaith Gofodol – gall y cymunedau sy'n colli Clwb Ieuencid presennol deimlo eu bod yn colli darpariaeth ac felly'n effaith negyddol. Fodd bynnag bydd y cymunedau hyn ac eraill yn gweld presenoldeb wrth i brosiect neu weithgaredd gael ei gynnal yno. Bydd y gwasanaeth yn ymweld gyda chymunedau drwy'r sir ac yn symud lleoliadau.

Gall y model hwn gynnig hyblygrwydd i wneud gwaith ymestyn allan, darparu prosiect a rhoi amser gweithiwr i gydlynu ymyrraeth ar gyfer ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan bobl ifanc mewn pentrefi.

3ydd Sector.

Dim grant i'r 4 mudiad trydydd sector sy'n derbyn grant ar hyn o bryd.

Dim grant i unrhyw fudiad trydydd sector – ond cyfleon comisiynu i ddarparu gweithgareddau.

Gall peidio rhoi grant fod ag effaith wahanol ar y mudiadau gwahanol yn ddibynnol ar eu hadnoddau / capasiti i ymdopi, capasiti i gynnyddu incwm a lleihau costau, targedu incwm o ffrydiau eraill.

Gall dileu'r grant arwain at lai o gyfleon cymdeithasol gan 2 mudiad i rai pobl ifanc mewn rhai cymunedau h.y gall olygu y bydd llai o glybiau Ffermwyr Ifanc, aelwydydd yr Urdd yn y sir

Mae mudiadau gwirfoddol eraill yn Ngwynedd yn darparu gweithgareddau a chyfleon cymdeithasol i bobl ifanc nad ydynt yn rhan o'r grant gan y Gwasanaeth Ieuencid. Byddai symud i drefn comisiynu yn rhoi tegwch i'r holl fudiadau trydydd sector sy'n rhan o'r pecyn cymorth ieuencid.

Bydd capasiti yn y model hwn i gomisiynu mudiadau trydydd sector i fod yn darparu gweithgareddau / prosiectau ar ran y Gwasanaeth Ieuencid – gan ddefnyddio arbenigeddau a chysylltiadau'r mudiadau gyda pobl ifanc.

Bydd capasiti yn y model hwn i fod yn darparu cefnogaeth i fudiadau'r 3ydd sector sy'n gweithio gyda pobl ifanc ar faterion megis hyfforddi'r gweithlu, diogelu, targedu grantiau ac ati.

Bydd capasiti yn y model i'r gweithiwr ieuentid ddarparu hyfforddiant, gweithgareddau a prosiectau ar y cyd gyda unrhyw glwb / cymdeithas sy'n darparu i bobl ifanc.

Opsiwn 4	Cyfarch y newid mewn anghenion pobl ifanc? (barn, a tueddiadau demograffig)
	Rhannol
	Bydd y Gwasanaeth oherwydd y gyllideb yn darparu llai.
	Ni fydd y gwasanaeth yn darparu gofod diogel i bobl ifanc ymgynnull ynddo.
	Bydd y gwasanaeth yn parhau i roi cyfraniad i'r 3ydd sector i ddarparu clybiau cymdeithasol mewn rhai cymunedau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc gymdeithasu drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Parhau i gynnig cyfleon i bobl ifanc ennill sgiliau drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Parhau i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc drwy brosiectau a gweithgareddau.
	Gweithiwr leuentid ar gael drwy'r ysgol, mewn cymunedau.
	Gweithwyr leuentid ar gael gydol y flwyddyn.
Gweithlu hyblygu i allu darparu gweithgaredd neu brosiect mewn lleoliad yn nol yr angen, ac ar bwnc yn nol yr angen.	
Gall y model hwn deilwra'i gynnig ar gyfer y grwpiau oedran gwahanol, sef 11-19 oed a 16-25 oed	
Cyfarch y newid yn y cyd-destun? (polisi, strategol, statudol)	
Ydy	
Bydd yr opsiwn yma yn caniatáu i ni adeiladu cysylltiadau a partneriaethu gyda ysgolion.	
Bydd y model yn caniatáu i ni gyfrannu tuag at y gwaith partneriaethol gydag asiantaethau cymorth ieuentid.	
Bydd y model yn caniatáu i ni gydweithio, cydgynllunio gyda'n partneriaid cymorth ieuentid i uchafu adnoddau, osgoi dyblygu a cyfarch anghenion ar y cyd.	
Bydd y model yn caniatáu i ni cyflawni'r rôl Gweithwir Allweddol i bobl ifanc fregus ôl 16 oed.	
Bydd y model yn caniatáu i ni barhau i gynnal darpariaeth sy'n agored i unrhyw berson ifanc, drwy brosiectau a gweithgareddau i rai 11-19 oed.	
Cyfarch y Gyllideb? (Fforddiadwy a cynaliadwy)	
Ydy	
<u>Fforddiadwy</u> - Ydy.	
<u>Cynaliadwy</u> - Ydy.	
Mae capasiti oddi fewn i'r opsiwn hwn ar gyfer cydweithio gyda siroedd eraill all arwain at effeithiolrwydd pellach.	
Mae gallu oddi fewn i'r opsiwn hwn i uchafu'r grantiau presennol o Lywodraeth Cymru a ESF am y 3 blynedd nesaf.	
Mae capasiti oddi fewn i'r opsiwn hwn i ail-ystyried y grant i'r trydydd sector yn y dyfodol	
Gallu i gynnal gweithlu?	

(recriwtio, hyfforddi a cynnal staffio).

Rhannol

Byddwn yn gallu cynnig swyddi llawn amser, ond llai ohonynt mewn nifer na opsiwn 3.

Bydd y model yn caniatáu i ni hyfforddi a datblygu ein gweithlu ein hunain.

Bydd y model yn caniatáu i ni fod a gweithwyr gyda'r sgiliau cywir a'r cymwyseddau i gyflawni'r gwaith ieuencid.

Crynodeb o'r prif effeithiau

(asesiad effaith cydraddoldeb, effeithiau cymdeithasol, effeithiau'r 3ydd sector)

Yn rhannol negyddol a posiitif

Cydraddoldeb

Effaith Negyddol ar y Grwp Oedran yn gyffredinol oherwydd llai o ddarparaeith ar gael.

Effaith Bositif i rai 16-25 oed gan fod y Gwasanaeth yn cyfarch eu hanghenion am y tro cyntaf.

Potensial Effaith Bositif ar rai grwpiau o bobl ifanc sydd a nodweddion gwarchoddedig gan y gall rhai o'r prosiectau / gweithgareddau fod yn delio gyda materion penodol megis rhywioldeb, trawsrywedd, dinasyddiaeth fyd-eang aca ti.

Effaith Bositif ar Bobl Ifanc gydag Anghenion ac Anabledd gan y bydd y model yn caniatáu presenoldeb Gweithiwr Ieuencid yn yr ysoliong arbennig.

Cymdeithasol.

Effaith Gofodol – gall y cymunedau sy'n colli Clwb Ieuencid presennol deimlo eu bod yn colli darpariaeth ac felly'n effaith negyddol. Fodd bynnag bydd y cymunedau hyn ac eraill yn gweld presenoldeb wrth i brosiect neu weithgaredd gael ei gynnal yno. Bydd y gwasanaeth yn ymweld gyda chymunedau drwy'r sir ac yn symud lleoliadau.

Gall y model hwn gynnig hyblygrwydd i wneud gwaith ymestyn allan, darparu prosiect a rhoi amser gweithiwr i gydlynu ymyrraeth ar gyfer ymateb i ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan bobl ifanc mewn pentrefi.

3ydd Sector.

Llai o arian ar gyfer ei roi fel grantiau i fudiadau 3ydd sector – gall y 4 mudiad sy'n derbyn grant ar hyn o bryd barhau i elwa, ond nid oes gwarant, gan y bydd mudiadau 3ydd sector eraill hefyd yn gallu cystadlu am gyfraniad.

Gall peidio rhoi grant i'r 4 mudiad sy'n derbyn grant ar hyn o bryd fod ag effaith wahanol ar y mudiadau gwahanol yn ddibynnol ar eu hadnoddau / capasiti i ymdopi, capasiti i gynnyddu incwm a lleihau costau, targedu incwm o ffrydiau eraill.

Gall peidio rhoi grant i'r 4 mudiad sy'n derbyn grant ar hyn o bryd arwain at lai o gyfleon cymdeithasol gan 2 mudiad i rai pobl ifanc mewn rhai cymunedau h.y gall olygu y bydd llai o glybiau Ffermwyr Ifanc, aelwydydd yr Urdd yn y sir.

Mae mudiadau gwirfoddol eraill yn Ngwynedd yn darparu gweithgareddau a chyfleon cymdeithasol i bobl ifanc nad ydynt yn rhan o'r grant gan y Gwasanaeth Ieuencid ar hyn o bryd. Byddai sefydlu'r gronfa hon yn caniatáu i eraill ymgeisio am yr arian i gynnal gweithgareddau.

Mae peth capasiti yn y model hwn i ddarparu cefnogaeth ariannol, a chefnogaeth arall i fudiadau'r 3ydd sector sy'n gweithio gyda pobl ifanc ar faterion megis hyfforddi'r gweithlu, diogelu ac ati.